YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
post@yggllangynwyd.pen-y-bont.cymru
www.yggllangynwyd.cymru
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701


13eg o Fedi, 2023

Cyflwyniad Bugeiliol
a Chwricwlwm Blwyddyn 7 Llangynwyd
28.09.23

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Rydym yn hynod o falch i groesawu Blwyddyn 7 i fod yn rhan o Dîm Llan yn ystod yr wythnos gyntaf yma! Hoffwn eich gwahodd chi, fel rhieni a gwarcheidwaid Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, i ymweld â'r ysgol i dderbyn mwy o wybodaeth am ein hysgol ni ar ffurf Cyflwyniad Bugeiliol a Chwricwlwm ar Ddydd Iau, 28ain o Fedi am 4yp.

Arweinir y cyflwyniad gan Mr Meirion Morgan (Pennaeth Blwyddyn 7) a Mr Owain Tudur (Uwch Arweinydd Lles) yn neuadd yr ysgol a byddwn yn cyflwyno gwybodaeth allweddol am faterion cynnydd a bugeiliol sy'n berthnasol i chi ac i ddysgwyr Blwyddyn 7. Bydd tiwtoriaid dosbarth Blwyddyn 7 yn mynychu'r cyflwyniad a bydd cyfle i chi ddod i'w hadnabod, i godi unrhyw bryderon sydd gennych chi neu'ch plentyn ac i ofyn unrhyw gwestiynau am yr ysgol.

Yn ogystal â'r cyflwyniad bugeiliol bydd cyflwyniad yn amlinellu'r Cwricwlwm i Gymru y bydd eich plentyn yn ei ddilyn yma yn Llangynwyd eleni, a chewch chi'r cyfle i grwydro arddangosfa gan y 6 maes dysgu a phrofiad yn cyflwyno'r gwaith a fydd yn cael ei ddysgu gan eich plentyn. Bydd yr arweinwyr maes ar gael hefyd er mwyn i chi gael y cyfle i drafod yr hyn y bydd eich plentyn yn ei ddysgu dros y flwyddyn nesaf ac i ateb unrhyw gwestiynau posib a fydd yn codi. Mae eich adborth fel rhieni a gwarcheidwaid yn allweddol wrth i ni ddatblygu'r cwricwlwm gorau i'n dysgwyr a byddwn yn gofyn i chi gwblhau holiadur byr ar ddiwedd y cyflwyniad hefyd.

Bydd lluniaeth ar gael i chi drwy gydol y noson ac mae croeso i ddysgwyr fynychu'r cyflwyniad.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu chi i'r ysgol!

Yn gywir,

| Mr Meirion Morgan<br>Pennaeth Blwyddyn 7 | Mr Owain Tudur<br>Uwch Arweinydd Lles | Miss Catrin Evans<br>Pennaeth Cynorthwyol |
|---|---|---|



Eco-Sgolion Eco-Schools
Marc Gyrfa Cymru Careers Wales Mark
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Investors in Families Buddsoddwyr mewn Teuluoedd
LLWYDDIANNUS ARWEINIOL NERTHOL

YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
post@yggllangynwyd.pen-y-bont.cymru
www.yggllangynwyd.cymru
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701

13th September, 2023

Pastoral Presentation
and Launch of Llangynwyd's Year 7 Curriculum
28.09.23

Dear Parent / Guardian,

We are extremely proud to have welcomed Year 7 to be part of Tîm Llan during this first week! We would like to invite you, as parents and guardians of Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, to visit the school to receive more information about our school in the form of a Pastoral and Curriculum Presentation on Thursday, 28th September at 4pm.

The presentation will be led by Mr Meirion Morgan (Head of Year 7) and Mr Owain Tudur (Senior Leader of Well-being) in the school hall and we will present key information about progress and pastoral issues which are relevant to you and to Year 7 learners. Year 7 class tutors will attend the presentation and you will have the opportunity to get to know them, to raise any concerns you or your child may have and to ask any questions about the school.

As well as the pastoral presentation we will be outlining the Curriculum for Wales that your child will follow here in Llangynwyd this year, and you will have the opportunity to view an exhibition from the 6 areas of learning and experience presenting the work that will be completed by your child. The area leaders will also be present for you to have the opportunity to discuss what your child will learn over the coming year and to answer any possible questions that may arise. Your feedback as parents and guardians is key as we develop the best curriculum for our learners and we will also ask you to complete a short questionnaire at the end of the presentation.

Refreshments will be available to you throughout the evening and learners are welcome to attend the presentation.

We look forward to welcoming you to the school!

Yours sincerely,

| | | |
|---|---|---|
| Mr Meirion Morgan | Mr Owain Tudur | Miss Catrin Evans |
| Head of Year 7 | Senior Leader of Well-being | Assistant Headteacher |



Eco-Sgolion Eco-Schools
Marc Gyrfa Cymru Careers Wales Mark
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
INVESTORS IN FAMILIES BUDDSODDWYR MEWN TEULUOEDD
ARWEINYDDIANNUS ARWEINIOL NERTHOL